CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd am 7pm ar 5 Rhagfyr 2022 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.*

Presennol:
Cadeirydd Cyng Nicky Redmond. Cyngr: Jan Culley , Hywel Davies, Iwan Davies, Ruth Davies, Garethe El Tawab, Ken Symmons, Richard Rose, Clive Wychwood

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: 0

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyngr A Edwards ac C Lewis.

**2. Datgan Diddordeb ar faterion sy'n codi o'r Agenda**

Dim.

3. **Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol.
Derbyniwyd yr Agenda fel y cafodd ei chyflwyno.

**4. Cadarnhau cofnodion 07-11-22**

| | | |
|---|---|---|
| Ar ôl dileu enw'r Cyng R Davies o'r rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol, derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir. | Eiliwyd | |
| Cyng H Davies | Cyng C Wychwood | Cytunwyd |

**5. Ceisiadau Cynllunio**

Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn:
https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and- sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

Nid oedd dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*Gorfodi Cynllunio*

Nid oedd dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*Diweddariad LDP2*

Nid oedd dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sir**

Nodwyd yr adroddiad ysgrifenedig.

**7. Cyllid a Gweinyddu**

*7.1 Taliadau Misol gan gynnwys Cyflog y Clerc a chodiad cyflog cenedlaethol.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Taliadau Rhagfyr 22 | | | | |
| S E Davies gros | | Cyflog, HMRC, SC | | 732.81 |
| John Morris | | Blychau blodau | | 582.00 |
| Groundsure Land Man | | Cyn. a Chadw Tir | | 14,440.00 |
| Un Llais Cymru | | Hyfforddiant Cynghorwyr | | 70.00 |
| Quartz Coat | | Llwybr i'r man chwarae | | 7,812.00 |
| Danfo | | | | Yn ôl y contract |
| Talwyd Tachwedd | | | | |
| LAS | Sbwriel | 48.11 | 8.02 | 40.09 |

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cymeradwyo codiad cyflog y Clerc a derbyn y taliadau | Cytunwyd |

*Contract cynnal a chadw'r tir*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Derbyn y dyfynbris ar gyfer Groundsure Land Management | Cytunwyd |

Nodi nad oedd dim dyfynbris wedi dod ar gyfer y blychau blodau.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gofyn i'r ysgol ofalu am y blychau blodau gerllaw iddi.<br>Gofyn i'r Grŵp Tyfu ofalu am y blychau blodau yng Nghroes-y-llan a Lôn y Ladi (byddai angen asesiad risg ar gyfer y gwaith).<br>Byddai'r Cyngor yn talu'r holl gostau rhesymol yn gysylltiedig â'r gwaith. | Cytunwyd |

*7.1.2 Cymhwysiad y Banc*

Nodwyd.

*7.2 Cyfarfodydd y dyfodol*

*Nodi bod y Neuadd wedi cael ei llogi ar y ddau ddydd Mawrth ar ôl Gŵyl y Banc ym mis Mai 2023. Cytuno ar ddyddiad arall.*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Llogi dydd Llun 15 Mai 2023 os bydd ar gael. | Cytunwyd |

*7.3 Cyfrifon diwedd blwyddyn*
Nodi bod yr archwiliad allanol am ddiwedd y flwyddyn 20-21 wedi ei gwblhau a'i fod yn ddiamod.

*7.4 Cyllideb*

Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. 20500
**Cronfeydd wrth gefn ar gael yn fras 01.04.23** 47906.00

**Gwario a ragwelir ar gyfer 23-24 32139**
Praesept 30,000 Unrhyw ddiffyg i gael ei gymryd o'r cronfeydd wrth gefn.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cytuno ar braesept 23-24 o £30k<br>Unrhyw ddiffyg i gael ei gymryd o'r cronfeydd wrth gefn os bydd angen. | Cytunwyd |

*7.5 Cofrestru tir*
Yn parhau

*7.6 Cylchlythyr*
Yn parhau

*7.7 Diweddaraf am rodd o dir a chytuno ar unrhyw ymateb*
Yn parhau

*7.8 Prosiect Cwrteisi a Pharch - Addewid*
*https://www.nalc.gov.uk/our-work/civility-and-respect-project*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Y Clerc i ychwanegu'r Addewid at Agenda mis Ionawr. | Cytunwyd |

*7.9 Arwydd Diffib ym mharc ceir Neuadd y Cwrwgl*
Gohiriwyd.

*7.10*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Dirprwyo awdurdod i'r Clerc i ddelio ag unrhyw faterion brys, gan gynnwys ceisiadau cynllunio (ar ôl ymgynghori â'r aelodau) tan y cyfarfodd ym mis Ionawr. Lle bydd yn ymarferol caiff cyfarfod eithriadol ei alw os bydd y Clerc, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn ystyried bod unrhyw fater yn gofyn am hynny. | Cytunwyd |

**8. Pwyllgorau**
*Y Pecyn Cyllid a Llywodraethiant i Gynghorau Tref a Chymuned*
Y cyfarfod cyntaf i ddigwydd yn y flwyddyn newydd.

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*9.1 Mannau gweithredu – Priffyrdd i gynnwys Croes-y-llan*
Gofyn am ddiweddariad gan y Cyng Sir.

*9.2 Llwybrau troed / mannau agored*
Nodi bod y plannu wedi ei wneud yn y cae chwarae ac y caiff ei ffensio maes o law.

*9.3 Pont Llechryd / yr Afon – Nodi'r sefyllfa bresennol a chytuno ar unrhyw weithredu pellach.*
Gofynnwyd a allai'r prennau a gafodd eu tynnu allan wrth glirio'r afon gael ei roi i bobl leol a oedd wedi dioddef yn y llif.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Y Clerc i ymchwilio i agweddau cyfreithiol hyn o ran cost y Cyngor i nifer fechan o drigolion. | Cytunwyd |

**10. Amwynderau**
*10.1 Bloc Toiledau – dogfennau tenantiaeth yn dal heb eu cytuno*
Dywedwyd bod y cytundeb prydles yn dal heb gyrraedd i'w ystyried. Dywedodd Pwyllgor y Neuadd, fel perchennog y bloc toiledau, y gallai mosaig gael ei ychwanegu ar fur allanol y bloc os câi'r arian ei ddyrannu.

10.2 *Man/Cae Chwarae – pob penderfyniad yn amodol ar ei gymeradwyo gan* Gymdeithas Cae Chwarae Llechryd

*10.2.1 Gwaith heb ei wneud gan gynnwys gwaith trwsio o archwiliad ROSPA 2022*
Nodwyd

*10.2.2 Nodi trwsio'r llwybr a'r gatiau newydd i'r man chwarae*
Dywedwyd bod y gwaith wedi talu amdano.

*10.2.3 Cyflwr llwybr y ffin*
Gofynnwyd i'r Cynghorwyr ymweld â'r safle i edrych ar gyflwr y llwybr. Mae'n bosibl y byddai'n rhaid symud y ffens gadwyn gan fod y tir yn llithro a'r llwybr yn suddo.

*10.2.4 Baw Cŵn*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Byddai'r arwyddion bach, sy'n cael eu storio yn y cwpwrdd yn y bloc y toiledau, yn cael eu gosod yn ardal Lôn y Ladi ac ar ffordd Coedmor. Rhoddodd y Cyng R Davies yn garedig ganiatâd i gysylltu'r arwydd wrth ei ffens hi wrth ymyl y ffordd. | Cytunwyd |

*10.2.5 Adnewyddu'r ffrâm ddringo – bydd yn dal yn eiddo i'r CC*
Nodwyd y problemau sy'n parhau. Byddai'r Clerc yn dal i fynd ar ôl y cwmni i ddatrys y problemau.

*10.3 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd*
*Rhoi adroddiad ar y cyfarfod â chynrychiolwyr y penseiri*
Nodwyd y dylid ymgynghori â'r gymuned os byddai'r Cyngor am geisio torri'r brydles ar yr Eglwys.

Yn y cyfamser

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Derbyn y dyfynbris gan Caroe & Partners am baratoi'r cais cyfleusterau llawn ar gyfer ailosod y llwybr. Nodi eu dyfynbris am ymweliadau safle yn ystod y gwaith. | Cytunwyd |

*10.4 Adeilad y Mileniwm*
Nid oedd dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*10.5 Mainc goffa neu fan i drigolion*
Gohiriwyd.

*10.6 Darparu rhandiroedd*
Yn parhau. Nodwyd nad oedd safle addas wedi ei enwi.

*10.7 Cysgodfannau bws*
Hysbysfwrdd heb gael ei osod.

*10.8 Diffibrileiddwyr*
Neuadd y Cwrwgl – ar waith

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Llangoedmor – nodi gyda diolch y cynnig gan Mr M Penny i osod y diffribrileiddiwr am ddim a'r Clerc i gadarnhau'r union fath o gwpwrdd sydd eisiau. Cytuno ar 'gyfeillion' penodol. | Cytunwyd |

*10.9 Hysbysfyrddau*
Roedd dyfynbris i gael ei ddarparu ar gyfer drws newydd.

*10.10 Biniau newydd ((postyn, clawr, man chwarae)*
Yn parhau.

*10.11 Llyfrgell Gymunedol*
Gohiriwyd.

**11. Digwyddiadau**

*11.1 Sul y Cofio*
Roedd torch wedi ei gosod yn ddiogel wrth y plac.

*11.2 Goleuadau Nadolig*
Roedd y digwyddiad wedi bod yn llwyddiannus a llawer iawn o bobl wedi dod. Byddai llythyr o ddiolch yn cael ei anfon at Flambards.

*11.3 Mari Lwyd*

Gohiriwyd i ddechrau'r prosiect yn gynnar yn 2023.

*11.4 Glanhau Afon Teifi*
Yn parhau.

*11.5 Codi sbwriel*
19 Chwefror 2023. Sicrwydd yswiriant i gael ei wirio.

**12. Adroddiadau cyfarfodydd**
Derbyn unrhyw adroddiadau.
*12.1 Cyng R Davies – Llywodraethwyr Ysgol*
Gofynnodd y Cyng Davies a allai dyddiadau cyfarfodydd gael eu rhoi iddi.
*12.2 Neuadd y Cwrwgl*
Nodwyd bod y Neuadd yn talu ei chostau o warged y gyllideb yn y flwyddyn ariannol hon. Ni fyddai hynny'n bosibl yn y dyfodol.

12.3 *Cyngr A Edwards ac R Davies – C y f a r f o d P ACT*Nid oedd dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.
*12.4 Grŵp Gwytnwch (i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y llifogydd)*
Nid oedd dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.
*12.5Cyng J Culley Pwyllgor rhanbarthol Un Llais*
Dywedwyd y byddai adroddiad yn cael ei wneud ar ôl cyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr.
*12.6Cyng J Culley Pwyllgor Moeseg a Safonau*
Dywedodd y Cyng Culley ei bod ar hyn o bryd yn cael hyfforddiant ar gyfer ei swyddogaeth ar y Pwyllgor.

**13. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghori heb eu cynnwys dan unrhyw bennawd arall)**

Nid oedd dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**14. Materion Personol - Cyfnewid Gwybodaeth gan Gynghorwyr**
Gofynnwyd a ellid defnyddio mwy o Gymraeg mewn cyfarfodydd. Byddai'r Clerc yn ymchwilio i'r gost a'r ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu ar y pryd.

**15. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 9 Ionawr 2023**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.40pm.*